

## **CYFLWYNIAD**

Mae Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang yn derm sydd â diffiniadau amrywiol. Yn Ysgol Waunfawr rydym wedi mabysiadu datganad o fwriad syml gaiff ei ddeall gan blant ac oedolion.

Rydym yn teimlo bod ADCDF yn bwysig yn Ysgol Waunfawr oherwydd:

- Rydym eisiau datblygu ymdeimlad o hunan –werth a rhyngweithio'n effeithiol ag eraill.
- Rydym angen dysgu am y cysylltiadau rhwng y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd ac am y cysylltiadau rhwng ein bywydau ni ein hunain a bywydau pobl ar draws y byd.
- Rydym eisiau dysgu sut i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch y modd yr ydym yn gwneud pethau yn unigol ac ar y cyd ar lefel lleol a byd eang , a fydd yn gwella ansawdd bywyd heddiw a heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.
- Rydym eisiau dysgu sut i ofalu amdanom ein hunain, gofalu am eraill a gofalu am yr amgylchedd.

\*\*\*\*\*

Wrth lunio ein datganiad o fwriad rydym wedi rhoi ystyriaeth i ddiffiniaid ACCAC yn y cyhoeddiad 'Canllawiau ar gyfer Addysg Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang' (2002), i'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ddiwygiedig (2007) ac i 'Dealltriaeth Gyffredin ar gyfer ADCDF yng Nghymru' (2007).

Mae Addysg Datblygiad Cynaliadwy (ADC) yn galluogi disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth, y gwerthoedd a'r sgiliau i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglyn â'r ffordd rydym yn gwneud pethau, yn unigol a gyda'n gilydd, yn lleol ac yn fyd eang, fydd yn hyrwyddo byd tecach a chynaliadwy.

Mae Addysg Dinasyddiaeth Fyd Eang (ADF) yn galluogi pobl i ddeall y ffactorau byd eang sy'n llunio'u bywydau i gwain gwybodaeth, profiadau, sgiliau a gwerthoedd fydd yn eu harfogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau, yn lleol ac yn fyd eang, fydd yn hyrwyddo byd tecach.

## NODAU AC AMCANION

Mae ADCDF yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion a'r oedolion sy'n gweithio gyda hwy i:

- ✚ *Ddatblygu medrau, galluoedd ac agweddau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd ac egwyddorion datblygu cynaliadwy yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang*
- ✚ *Ehangu eu profiad o fywyd trwy gyswllt gyda phobl o gefndiroedd gwahanol*
- ✚ *Fynd i'r afael a materion lleol a byd eang mewn perthynas a chynaliadwyedd, yr amgylchedd, a rhyngddibyniaeth rhyngwladol*
- ✚ *Erdych ar eu gwerthoedd a'u hunaniaeth fel unigolion ac fel aelodau o gymunedau lleol, cenedlaethol a byd eang a thrwy hynny barchu hunaniaeth a gwerthoedd pobl eraill*
- ✚ *Cynyddu eu hunan dyb, hyder, annibyniaeth meddwl a chyfrifoldeb personol.*
- ✚ *Hybu hunan-barch, parch at eraill a pharch at amrywiaeth.*
- ✚ *I wneud dewtsiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig a gwaith a bywyd oedolyn.*
- ✚ *I ddatblygu agwedd gadarnhaol at faterion sy'n ymwneud a thlodi, tegwch a goddefgarwch.*

## GWEITHREDU'R POLISI

- Er mwyn addysgu ein disgyblion yn llwyddianus materion cynaliadwy byd eang rydym yn cynllunio ac ymgorffori ADCDF i'r cwricwlwm a phob agwedd o fywyd yr ysgol sy'n cynnwys yr ethos, y drefniadaeth a'r rheolaeth. Rhaid i'r ysgol 'wneud' yn ogystal ag 'addysgu'.
- Cymerir agwedd gyfannol (holistig) tuag at addysg ein disgyblion gan sicrhau cyfleoedd lle gall pob pwnc gyfrannu.
- Trwy weithredu'r dull hwn anelwn tuag at addysg ein disgyblion gan sicrhau cyfleoedd lle gall pob pwnc gyfrannu.
- Trwy weithredu'r dull hwn anelwn at sicrhau bode in disgyblion yn gweld cysylltiadau cyson rhwng meysydd, pynciau a materion fydd yn sicrhau perchnohaeth ar y 'darlun mawr' o'r byd ehangach.
- Sicrheir bod y cynnig profiadau yn rhan greiddiol o'n haddysgu ac ni chyfyngir y profiadau hyn i'r ystafell ddosbarth.

**Bydd egwyddorion ADCDF yn cael eu hamlygu yn yr Ysgol hon yn y ffyrdd canlynol :**

*Er mwyn dangos natur drawsbynciol Addysg ar gyfer Datblygu cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ac er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, mae'r Ddealltwriaeth Gyffredin hon yn cynnwys datganiadau ar werthoedd ac agweddau, a gwybodaeth a dealltwriaeth drwy fframwaith sy'n seiliedig ar y saith thema gydysylltiedig ganlynol:*

- ❖ *Cyfoeth a thlodi*
- ❖ *Yr amgylchedd naturiol*
- ❖ *Hunaniaeth a diwylliant*
- ❖ *Defnydd a gwastraff*
- ❖ *Dewisiadau a phenderfyniadau*
- ❖ *Newid yn yr hinsawdd*
- ❖ *Iechyd*

**1. Y Cwricwlwm :**

**2. Amgylchedd a chyswllt cymunedol :dylai'r disgyblion gael cyfleoedd i:**

- ✓ *Ennyn parch at dirweddau ,cynefinoedd a phethau byw*
- ✓ *Meithrin ymdeimlad o syndod at fyd nature a'i barchu*
- ✓ *Gwybod a deall anghenion popeth byw*
- ✓ *Deall bod pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd i gael ynni, bwyd a defnyddiau eraill.*

**Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Aur Ysgolion Gwynedd a Mon 2007 rhan o'r cynllun oedd datblygu a gofalu am amgylchedd yr ysgol. Yn flynyddol ymgwymerir a phrosiect amgylcheddol e.e.**

**2004-5:**

**2005-6:**

**2006-7:**

**2007-8:**

**3.Cynnwys a rhanddalwyr :**

**4. Cysylltiadau byd eang a lleol :**

## 5. Adnoddau

### 6. Sgiliau :Datblygu sgiliau sydd yn y fframwaith sgiliau trwy weithgareddau ADCDF gyda chyfleoedd arbennig i ddatblygu ;

- ✓ sgiliau cyfathrebu gwranddo,cyfrannu at drafodaethau a chyfleu syniadau.
- ✓ sgiliau meddwl i gynllunio, nodi, disgrifio, egluro,ddefnyddio gwybodaeth, rhagfynegi a gwneud penderfyniadau hyddysg.
- ✓ sgiliau cydweithio a chydweithredu ag eraill i ddatrys problemau,i gydymdeimlo ag eraill i wrthod ildio i bwysau cyfoedion ac i ddatblygu strategaethau ar gyfer datrys gwrthdaro.
- ✓ Eu perfformiad personol a gwella eu dysgu drwy feithrin y sgiliau ymarferol angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, gan fyfyrrio ar y dysgu a gyflawnwyd yn yr ysgol a'i gysylltu a sefyllfaoedd yn y byd ehangach.

## CYFLEOEDD ALLGYRSIOL A THU ALLAN I'R YSGOL

Cynigia'r ysgol ddarpariaeth sy'n galluogi'r disgyblion i ehangu eu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang.

Rydym fel ysgol :

- 1) Wedi cymryd rhan yng Nghynllun Gwyrdd Ysgolion Gwynedd a Mon ac wedi derbyn y wobr Aur Haf 2007.
- 2) Wedi cymryd rhan yng Nghynllun Iach Gwynedd a Mon – hygredwyd yr ysgol gyda'r Ail Gam Haf 2007.
- 3) A chysylltiadau gydag ysgolion eraill megis .....
- 4) Wedi gosod strwythur cryf yn ei le i alluogi disgyblion i fynegi barn yn y Cynghorau Dosbarth ac Amseroedd Cylch a'r cynrychiolwyr ar y Cyngor Ysgol.
- 5) Wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grant o £400.00 (Haf 2007) i ddatblygu gweithgareddau ADCDF o fewn yr ysgol.
- 6) Yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a chystadleuthau i hybu-----
- 7) Yn gwerthu eitemau 'masnach deg' yn ein Ffair Nadolig.

## ASESU, COFNODI AC ADRODD

Caiff y gwaith sy'n ymwneud ag ADCDF o fewn pynciau ei asesu o fewn y pynciau hynny. Os yn briodol caiff peth o'r gwaith ei asesu'n ffurfiol ond bydd mwyafrif llethol y gwaith yn cael ei asesu'n anffurfiol. Rhennir unrhyw lwyddiannau arwyddocaol gyda rhieni.

## **ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ARWAIN A RHEOLI**

Enwebwyd llywodraethwyr cyswllt gyda chyfrifoldeb dros ADCDF ac ef/ hi yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer y maes ar y corff llywodraethu.  
Mae gan aelod o staff gyfrifoldeb fel Cydlynnydd ADCDF drwy'r ysgol a bydd yn monitro'r ddarpariaeth o fewn y cwricwlwm.  
Cynhwysir SDCDF yn nhrefniadath hunan arfarnu'r ysgol.

### **CYDLYNU**

Rôl y Cydlynnydd ADCDF yw datblygu, codi ymwybyddiaeth, cefnogi a chydweithio i fonitro a hunan arfarnu'r maes. Caiff unrhyw anghenion a hyfforddiant eu hadnabod yn y CDY a'r cylch Rheoli Perfformiad.

### **CYDRADDOLDEB HILIOL A CHYFLE CYFARTAL**

Mae holl waith ADCDF yr ysgol yn dda rostyngedig i ac yn cefnogi'r polisiau'r ysgol yn y meysydd uchod.

### **IECHYD A DIOGELWCH**

Glynwn i ofynion ac argymhellion polisi Iechyd a Diogelwch yr AALL.  
Gofynnir am ganiatad rhieni ar gyfer pob gweithgaredd tu allan i dir yr ysgol. Ceisir cyngor gan asiantaethau allanol.

Trefniadau ar gyfer adolygu'r polisi – adolygir pob tair blynedd

Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Cadeirydd Llywodraethwyr Ionawr 2009

Arwyddwyd gan y Cadeirydd \_\_\_\_\_

Dyddiad Chwefror 7fed 2013